**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio**

**Dydd Mawrth 23 Mai 2023, 12.15 – 13.00pm**

**Cyfarfod ar-lein**

**Nodiadau'r Cyfarfod**

**Mynychwyr**

| | |
|---|---|
| Mike Hedges AS (Cadeirydd) | Jackie Marshall-Cyrus, Jackie's Revolution |
| Ryland Doyle, swyddfa Mike Hedges AS | Mel Minty, Fforwm Gofal Cymru |
| Laura Anne Jones, AS | Michael Phillips, Age Cymru |
| Jack Sargeant AS | Becky Ricketts, Gofal a Thrwsio Cymru |
| Carolyn Thomas AS | Dan Steer, Sefydliad Nuffield |
| Ceri Cryer, Age Cymru | Helen Twidle, Age Cymru |
| Dr Bernadette Fuge, Llywydd Age Cymru | Naomi White, Y Groes Goch Brydeinig |
| Molly Gray, Cyngor Biofoeseg Nuffield | Yr Athro John Williams, Cadeirydd Age Cymru |
| Carys Henry, ymddiriedolwr Age Cymru | |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Lorraine Morgan, Jackie's Revolution | Andrea Nicholas-Jones, Action for Elders |

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-2023 ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio.

Etholwyd Mike Hedges AS fel Cadeirydd ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio. Enwebwyd gan Laura Anne Jones AS ac eiliwyd gan Jack Sargeant AS.

Cytunodd Ceri Cryer, Age Cymru, i ddarparu Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio, wedi enwebiad gan Mike Hedges AS, Cadeirydd, ac eiliad gan Jack Sargeant AS.

**Grŵp Trawsbleidiol ar Bobl Hŷn a Heneiddio**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mike Hedges AS, Cadeirydd.

<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi</u>
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol ar 28 Mawrth 2023.

Mae Mike Hedges AS, Cadeirydd, yn disgwyl am ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w lythyr ynglŷn â phroblemau yn ymwneud â rhyddhau pobl o'r ysbyty.

Adroddiad Dyfodol Heneiddio – cyflwyniad gan Molly Gray, Rheolwr Prosiect Cyngor Biofoeseg Nuffield (anfonwyd y cyflwyniad at aelodau'r Grŵp).

Mae Cyngor Biofoeseg Nuffield yn ganolfan bolisi ac ymchwil annibynnol, a'r corff biofoeseg blaenllaw yn y DU. Rydyn ni'n ymwneud ag ymchwilio a chyfathrebu materion sy'n croestorri biowyddoniaeth newydd a heriau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu'r datblygiadau sydd â photensial i newid yn sylfaenol y ffordd rydyn ni'n byw, trin salwch, neu feddwl am fod yn fodau dynol. Mae gennym ddiddordeb mewn amryw o faterion o atgynhyrchiad cynorthwyol i farwolaeth gynorthwyol, ac yn ein hoes o 30 mlynedd rydyn ni wedi cyhoeddi adroddiadau awdurdodol ar dros 30 maes o fewn biowyddoniaeth ac iechyd. Fe'n hariennir gan Sefydliad Nuffield, y Cyngor Ymchwil Feddygol ac Ymddiriedolaeth Wellcome.

Gwnaeth yr ymchwiliad dwy flynedd o hyd ar Ddyfodol Heneiddio gychwyn yn ystod y pandemig ym mis Rhagfyr 2020. Rydyn ni'n weithgor amlddisgyblaethol ag arbenigaeth mewn heneiddio, meddygaeth, nyrsio, gwaith ymchwil biofeddygol, athroniaeth, moeseg, ac anghydraddoldebau iechyd. Prif nod yr ymchwiliad oedd cynhyrchu adroddiad gyda themâu allweddol ac argymhellion polisi. Gwnaethom gasglu'r dystiolaeth a chyflawni ein gwaith ymchwil ein hun yn cynnwys rhaglen ymgysylltu gyda'r cyhoedd gan gynnwys pobl hŷn a deialog gyda'r cyhoedd.

Nod ymchwiliad Dyfodol Heneiddio oedd archwilio cwestiynau moesegol yn ymwneud â rôl gwyddoniaeth a thechnoleg a helpu pobl i fyw yn well wrth iddynt heneiddio. Gwnaethom ganolbwyntio ar dri maes: datblygiadau mewn gerowyddoniaeth - anelu at drin mecanweithiau sylfaenol heneiddio biolegol; arloesedd mewn technoleg gynorthwyol a chyfathrebu - robots, tai clyfar, teleofal; a thechnoleg ragfynegol a diagnostig arloesol - e.e. defnydd o ddeallusrwydd artiffisial i gefnogi diagnosis cynnar o salwch sy'n gyffredin ymhlith pobl sy'n heneiddio.

Mae sylw polisi sylweddol wedi ei roi i sut fydd ymchwil ac arloesi biofeddygol yn ymateb i'r symudiad oedran ymhlith y boblogaeth. Bydd datblygiadau yn y meysydd hyn yn cynnig buddion pwysig yn y dyfodol, i unigolion ac i'r gymdeithas ehangach. Maent hefyd yn peri cwestiynau moesegol pwysig, nid yn unig am sut mae pobl yn teimlo am fynd yn hŷn, ond hefyd sut mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi., a sut maent yn gobeithio llwyddo yn hwyrach yn eu bywydau.

O ran ein darganfyddiadau, rydyn ni'n credu bod angen rhoi pwyslais ar y cyfleoedd mae bywyd hirach ac iachach yn eu cynnig i bob cenhedlaeth. Mae angen i ni ystyried gwyddoniaeth a thechnoleg ochr yn ochr â nifer yr elfennau di-dechnoleg mae angen i gymdeithas i newid er mwyn cwrdd ag anghenion pobl hŷn yn well. Dylai gwaith ymchwil ac arloesedd ymroddi i waith yn ymwneud ag anghydraddoldeb iechyd a llesiant wrth i bobl fynd yn hŷn.

Gwnaeth pryderon a themâu moesegol allweddol ddod i'r amlwg yn ystod y prosiect. Lleisiau pwy sy'n cael eu clywed, a phryderon fod gwerthoedd a safbwyntiau pobl hŷn yn cael eu hepgor yn y ffordd mae gwaith ymchwil yn cael ei flaenoriaethu, ei gynllunio, a'i gwblhau, er enghraifft diffyg cynnwys oedolion hŷn mewn treialon clinigol. Pryder arall oedd mynediad deg ynghylch hygyrchedd, argaeledd a fforddiadwyedd cynnyrch a thriniaeth sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Clywsom bryderon hefyd yn ymwneud â dewis a rheolaeth; efallai bydd arloesedd technegol yn cynyddu'r opsiynau sydd ar gael i ni oll wrth i ni heneiddio, a'n galluogi ni i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach. Ond, efallai bydd y ffordd bydd rhai mathau o dechnoleg yn cael eu defnyddio yn lleihau'r rheolaeth sydd gan oedolion hŷn dros eu bywydau eu hun.

Roedd yna bryderon hefyd ynghylch perthnasoedd - sut mae gwybodaeth a thechnoleg yn effeithio ar sut mae pobl yn cysylltu, a pherthnasoedd rhwng pobl sy'n hanfodol i bobl o bob oedran.

Gwnaethom gasglu fframwaith moesegol (a phecyn cymorth) er mwyn helpu gwneuthurwyr polisi, pobl sy'n ariannu gwaith ymchwil, ymchwilwyr ac ymarferwyr gyda'u gwaith:

- Darganfyddiadau moesegol
- Cefnogi llewyrchu wrth fynd yn hŷn
- Hyrwyddo ecwiti
- Herio gwahaniaethu ar sail oedran
- Symud pŵer
- Dangos dibynadwyaeth
- Galluogi cynaliadwyedd.

Roedd argymhellion allweddol ein hadroddiad yn cynnwys:
- Y broses o greu polisïau i gynnwys mewnbwn gan y cyhoedd
- Dylai'r strategaeth traws-lywodraethol ar heneiddio gael ei chefnogi gan fforwm ymgynghorol cyhoeddus sy'n pontio'r cenedlaethau
- Cynhwysiant: dylanwadu ar yr agenda ymchwil
- Dylai profiadau gan amrywiaeth o oedolion hŷn siapio penderfyniadau am waith ymchwil
- Cynhwysiant: cymryd rhan mewn gwaith ymchwil
- Cefnogi gwaith ymchwil rhyngddisgyblaethol
- Rheoli ac achredu
- Datblygu safonau wedi eu hachredu ar gyfer hyrwyddo ymarferion ymchwil moesegol ar gyfer technoleg sydd wedi cael ei ddatblygu i gefnogi pobl hŷn
- Gwell cysylltiadau rhwng gwaith ymchwil a gweithredu
- Hyrwyddo bod ymchwilwyr, a phobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn yn gweithio'n agosach gyda'i gilydd.

Cwestiynau a Thrafodaeth

Mike Hedges AS - unigrwydd yw gelyn fawr bobl hŷn. Mae'n rhaid i bethau gael eu gwneud gyda phobl hŷn yn hytrach nag ar eu cyfer.

Yr Athro John Williams – mae hon yn astudiaeth gynhwysfawr sydd yn ein helpu i ffocysu ar faterion yn ymwneud ag urddas. Mae angen i ni gydbwyso buddion technoleg er mwyn sicrhau nad yw technoleg yn dad-ddyneiddio pobl.

Molly Gray - mae'r astudiaeth wedi darganfod sut gall technoleg fod yn fuddiol, ond mae hefyd yn pwysleisio pryderon ynglŷn â phobl hŷn yn colli cysylltiad personol gyda phobl eraill. Clywsom am ofnau ynghylch robotiaid yn cael y llaw uchaf - dydy sefyllfa o'r fath ddim yn rhy bell i ffwrdd, ac mae eisoes yn digwydd o fewn system gofalu Japan. Beth mae'r datblygiadau hyn yn eu golygu i bobl hŷn o ran dewis?

Mike Hedges AS – mae rhyngweithio â phobl eraill yn hynod o bwysig i bobl hŷn, yn enwedig pobl sy'n byw ar eu pennau eu hun sydd ond yn gweld ac yn rhyngweithio â'u gweithiwr gofal. Byddai robot gofal yn dirywio ansawdd bywyd y person hŷn hwnnw'n ofnadwy.

Jackie Marshall-Cyrus – sut cafodd yr astudiaeth ei strwythuro yn nhermau pedair gwlad y DU, grwpiau oedran cronolegol, rhyw, ethnigrwydd ac amrywiaeth?

Molly Gray - dim ond yn Lloegr y cafodd yr astudiaeth ei lleoli ond byddai wedi elwa o gael ei chynnal ledled y pedair gwlad ond roedd yn ymestyn ar draws Lloegr gyda rhai grwpiau benywaidd yn unig, a gwahanol ethnigrwydd. Ni wnaethom gapio unrhyw grŵp oedran ond ymchwiliwyd i safbwynt rhwng cenedlaethau ac roedd yr astudiaeth yn cynnwys pobl rhwng 18 a 84 oed ac yn targedu pob grŵp o fewn yr ystod honno. Byddwn yn bendant yn seilio'r ymchwil ar y pedair gwlad y tro nesaf.

Gohiriwyd y cyflwyniad gan Age Cymru ar ganfyddiadau rhagarweiniol 'Beth sy'n bwysig i chi - arolwg cenedlaethol o brofiadau presennol pobl 50 oed a hŷn yng Nghymru' i gyfarfod yn y dyfodol wrth oherwydd bod y data a gasglwyd gan yr arolwg yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd.

Gofynnwyd i'r aelodau pa bynciau yr hoffent eu gweld yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol – gellir anfon awgrymiadau drwy e-bost at Ceri Cryer. Hoffai Mike Hedges AS, Cadeirydd, wahodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod yn y dyfodol. Rhoddodd Ceri Cryer wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am eitemau agenda sydd ar ddod ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf
Dydd Mawrth 27 Mehefin, 12.15-13.30pm, cyfarfod Zoom ar-lein.

Diwedd y cyfarfod.